



Rhwymedigaethau cyfreithiol wrth gasglu hadau coed yng Nghymru

Cofrestru fel cyflenwr

Rhaid i unrhyw un sy'n gwerthu 'Deunyddiau atgenhedlol coedwigoedd' (FRM) at 'ddibenion Coedwigaeth' gofrestru eu hunain gyda'r Comisiwn Coedwigaeth (FC) fel cyflenwr. Mae FRM yn cynnwys hadau coed a werthir yn uniongyrchol, neu hadau a gesglir ac a dyfir ar gyfer eu gwerthu'n ddiweddarach (e.e. eu plannu mewn meithrinfa a'u gwerthu fel eginblanhigion/trawsblaniadau). Mae FRM hefyd yn cwmpasu sawl math arall o ddeunydd megis toriadau ac eginblanhigion a gynhyrchir drwy luosogi llystyfol neu ddulliau arbenigol eraill. Mae 'dibenion Coedwigaeth' yn cynnwys y rhan fwyaf o fathau o blannu coetir ond nid ydynt yn cynnwys plannu tirwedd ar gyfer cynlluniau ffyrdd a rheilffyrdd, plannu trefol yn ymwneud â datblygiadau diwydiannol a domestig, a chynhyrchu coed Nadolig (oni bai fod y rhain wedi derbyn cymorth grant yr FC).^{1,2}

Mae ymgeisio i fod yn gyflenwr cofrestredig yn syml - fe'i gweinyddir gan y Comisiwn Coedwigaeth (Caeredin) ac mae ffurflen gais syml ar gael ar-lein. Mae angen i chi nodi pa fath o weithgarwch yr ydych yn bwriadu ymwneud ag ef - Casglwr / Masnachwr / Profwr / Mewnforiwr / Allforiwr / Meithrinfa Hadau / Masnachwr Stoc Blanhigion / Tyfwr Poplys. Bydd y manylion a ddarperir gennych yn cael eu cyhoeddi pan gewch eich ychwanegu at y rhestr genedlaethol o gyflenwyr FRM.^{1,2,3,4}

Ar hyn o bryd, mae bron pob un o'r cyflenwyr cofrestredig yng Nghymru yn gasglwr a/neu feithrinfeydd, a dim ond un cyfleuster profi hadau cymeradwy a geir, sy'n cael ei redeg gan Maelor Forest Nurseries Ltd ger Wreccsam. Os ydych yn casglu hadau at eich defnydd eich hun ac ni fyddant yn cael eu gwerthu, neu eu tyfu i'w gwerthu, yna nid yw rheoliadau FRM yn berthnasol i chi. Fodd bynnag, mae'n arfer dda cadw cofnodion o'r ffynhonnell hadau a stoc dyfu, ac mae sicrhau caniatâd y tirlfeddiannwr yn bwysig o hyd.



Llais y Goedwig, Unit 1, Dyfi Eco Park, Machynlleth, Powys, SY20 8AX



Rhaid darparu manylion yr holl hadau y bwriedir eu gwerthu i'r FC o leiaf 2 wythnos cyn dechrau casglu. Ar ôl i chi orffen casglu, rhaid i chi hefyd gwblhau 'Tystysgrif feistr' a'i darparu i'r FC.⁸

RHAID i unrhyw berson sy'n dymuno gwerthu hadau fod wedi cofrestru â'r FC fel CYFLENWR. Yn gyffredinol, rhaid PROFI'r holl hadau a werthir (ar gyfer purdeb, canran hyfywedd / cyfradd egino, a phwysau). I osgoi difetha hadau a all fod yn brin, mae'n bosib na fydd rhaid profi symiau llai i sefydlu eu cyfradd egino (diffinnir symiau bychain yn Atodlen 11 i'r rheoliadau, e.e. <40kg ar gyfer y Dderwen, <50g ar gyfer y Fedwen, etc). Ar hyn o bryd, dim ond nifer fechan o gyflenwyr sydd wedi cael eu cymeradwyo gan yr FC i gynnal profion o'r fath a dim ond cyfleusterau profi hadau wedi'u cymeradwyo gan yr FC all gynnal profion hadau statudol gan fod hyn yn gofyn am safonau lefel labordy diffiniedig.^{2,5}

Felly, os ydych yn bwriadu gwerthu hadau ar eich liwt eich hun, rhaid i chi fod yn gyflenwr cofrestredig a sicrhau bod samplau o hadau a werthir yn cael eu profi. Mewn theori, gallech ddod yn gyfleuster profi hadau cymeradwy i wneud hyn, ond mae bodloni'r safonau cadarn sy'n ofynnol yn anodd (dim ond 3 gorsaf profi sydd yn y DU ar hyn o bryd). Datrysiaid yw anfon samplau o'ch hadau i gyfleuster cymeradwy ond gall pob math o brawf gostio oddeutu £40-60 a bydd symiau lleiaf penodol o hadau yn ofynnol (e.e. 500 o hadau'r Dderwen, 10g o hadau'r Fedwen, etc) felly bydd angen i chi gasglu symiau digon mawr i wneud hyn yn gost-effeithiol. Fel arall, yn hytrach na cheisio gwerthu hadau yn uniongyrchol, gallwch ddarparu hadau i gyflenwr cofrestredig fel 'contractwr', lle byddant yn eich talu am y casgliad, ac yn cwblhau'r holl waith papur a phrofi cyn y byddant yn gwerthu'r hadau eu hunain.⁵

Os ydych yn casglu hadau i'w tyfu mewn meithrinfa ac yn bwriadu gwerthu'r eginblanhigion yna bydd angen i chi fod wedi cofrestru fel cyflenwr. Cyn gwerthu unrhyw stoc a dyfwyd gennych, bydd angen i chi hefyd gwblhau 'Tystysgrif feistr' yn cofnodi'r holl wybodaeth berthnasol i'r FRM hwnnw. Rhaid i ddogfen y cyflenwr fod ynghlwm ag unrhyw stoc blannu a werthir.^{2,3,9}

Proses ar gyfer casglu hadau os ydych yn bwriadu eu tyfu a'u gwerthu fel eginblanhigion/trawsblaniadau:

- ◇ Cofrestru fel cyflenwr
- ◇ Sicrhau caniatâd ysgrifenedig gan y tiffeddiannwr ar gyfer casglu hadau
- ◇ Rhoi gwybod i'r FC o leiaf dwy wythnos cyn casglu (lleoliad y safle, dyddiadau, rhywogaethau etc)
- ◇ Casglu'r hadau a sicrhau eu bod wedi'u labelu a'u storio'n gywir
- ◇ Os ydych yn eu tyfu, yna rhaid profi sampl o'r hadau mewn cyfleuster cofrestredig Os yw symiau yn fach, efallai y bydd nemor ddim profion yn ddigonol
- ◇ Rhaid i bob gwely hadau fod yn adnabyddadwy / wedi'u labelu. Dylid cadw cofnodion da.
- ◇ Rhaid ymgeisio am Dystysgrif Feistr o fewn 9 mis i gasglu'r hadau, a chyn cyn unrhyw werthiannau
- ◇ Dylid darparu dogfen y cyflenwr gydag unrhyw stoc dyfu a werthir

Cofrestr Genedlaethol o ddeunydd sylfaenol

Cedwir gwybodaeth am yr holl ddeunydd FRM sylfaenol (hadau / toriadau / clonau etc) ar y Gofrestr Genedlaethol o Ddeunydd Sylfaenol Cymeradwy. Mae'r FC yn cynnal y gofrestr hon ac yn cymeradwyo'r holl ddeunydd. Rhaid cofrestru unrhyw FRM y bwriedir ei werthu.⁸

Cofrestru ffynonellau hadau

Y categori mwyaf sylfaenol o ffynhonnell hadau yw "Ffynhonnell adnabyddedig" - gall yr hedyn ddod o goeden unigol neu grŵp o goed. Nid oes meini prawf dethol yn ymwneud ag ansawdd y deunydd sylfaenol hwn, yr unig gyfyngiad yw bod rhaid i'r casgliad ddod o un rhanbarth tarddle / parth hadau. Nid yw cofrestru deunydd ffynhonnell adnabyddedig yn angenrheidiol, ond mae'n rhaid rhoi gwybod i'r FC am y casgliad serch hynny. Dim ond gwybodaeth sylfaenol sy'n ofynnol (rhanbarth tarddle / parth hadau, band uchder ar gyfer rhywogaethau 'brodorol'). Ni fydd safleoedd ffynhonnell adnabyddedig yn cael eu harchwilio, oni bai eu bod yn cael eu categorioedd fel celli naturiol o ddeunydd "Brodorol". Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y dystiolaeth y gellid ei hystyried yn Atodiad 4 i reoliadau FRM.²

Os ydych yn dymuno cofrestru hadau o 'Gelli' ddiffiniedig yna rhaid cofrestru'r safle a darparu gwybodaeth ychwanegol (manylion ynghylch tarddiad a dosbarth cnwd, os yw'n hysbys, mapiau 1:10000 yn dangos ffiniau). Gall celliau ddarparu hadau o ddeunydd 'ffynhonnell adnabyddedig', neu 'Ddetholedig' os archwiliwr y rhiant goed a chredir eu bod o ansawdd uwch.

Mae'n annhebygol y caiff celliau ffynhonnell adnabyddedig sylfaenol eu harchwilio, ond bydd Uned Gwasanaeth Technegol, Forest Research yn ymweld â chelliau 'Detholedig', a fydd yn ystyried ansawdd y coed ar sail iechyd, rhagoriaeth weledol, arwahanrwydd oddi wrth rywogaethau salach/hybrid a maint/dwysedd stocio.

Ardystio celliau

Gall fod yna fanteision i ardystio celliau hadau. Gall hadau o gelliau wedi'u categorioedd fel 'detholedig' fod yn fwy gwerthfawr (e.e. ar gyfer hadau'r Dderwen, oddeutu 5-10% yn ychwanegol). Os ydych yn dymuno cael celli wedi'i chategorioedd fel un 'Ddetholedig', rhaid i'r cais gael ei wneud gan y perchennog, neu gyda chaniatâd perchennog y coetir. Dylid gwneud ceisiadau i'r FC yn defnyddio'r ffurflen FRM1A.⁶

Mae manylion sylfaenol yn ofynnol:

- ◇ Enw'r rhywogaeth, blwyddyn blannu, ardal (hectarau) a manylion ynglŷn â tharddiad a dosbarth cnwd os yw'n hysbys
- ◇ Manylion ynglŷn â'r safle, enw'r goedwig, cyfeirnod grid y rhif adran, uchder y safle
- ◇ Perchnogaeth a manylion cyswllt
- ◇ Map(iau) (graddfa 1:10,000) yn dangos ffiniau'r ardal

Bydd arolygydd Forest Research yn ymweld â'r safle i asesu'r coed ac argymhell p'un a dderbynnir neu a wrthodir y gelli. Ystyrir meini prawf amrywiol, yn ymwneud yn bennaf ag ansawdd posib y coed neu a ellir dynodi'r coed yn rhai 'brodorol'. Ceir manylion yn Atodiad 3 i reoliadau FRM.² Os oes gennych ddiddordeb mewn cofrestru eich coetir fel celli Ddetholedig ar gyfer casglu hadau, ond nid ydych yn sicr a fyddai'n cael ei chymeradwyo, efallai y byddwch yn dymuno cyflogi coedwigwr proffesiynol a all eich cynghori. Gellir cysylltu â choedwigwyr achrededig yng Nghymru drwy Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig (ceir y cyfeiriad cyswllt isod).

Ar hyn o bryd, dim ond 8 o gelliau llydanddail 'detholedig', a 15 o gelliau conifer 'detholedig' cofrestredig sydd yng Nghymru. Ymddengys fod prinder penodol o gelliau detholedig o'r Dderwen mes digoes frodorol, (*Quercus petraea*).

Fel rheol, mae cofrestru celli 'Ddetholedig' yn cymryd rhai misoedd, ond mae'n aml yn ddibynnol ar lwyth gwaith yr arolygwyr (ac, ar hyn o bryd, cyfyngiadau COVID). Os yw cais celli yn un brys, yna gall yr FC ofyn iddo gael ei flaenoriaethu.

Cynllun Gwirfoddol yr FC

Mae rheoliadau FRM yn berthnasol i 46 o rywogaethau coed a reolir (gweler Atodiad 2 i Reoliadau FRM²). O'r rhain, defnyddir 28 yn gyffredin yng Nghoedwigoedd Prydain, ac mae 15 yn frodorol i Brydain Fawr. Gellir ardystio rhywogaethau na roddir sylw iddynt yn y rheoliadau dan 'Gynllun Gwirfoddol' yr FC hefyd. Mae'r gweithdrefnau'r un fath â'r rheiny ar gyfer y Cynllun Rhywogaethau a Reolir.^{2,3}

Ardystio ffynonellau hadau eraill

Rhaid cofrestru categorïau ffynonellau eraill, 'Perllannau hadau', 'Rhieni teuluoedd', 'Clonau' a 'Chymysgeddau clonol' i gyd ac mae lefelau uwch o wybodaeth ac archwiliadau yn ofynnol. Os mai'r bwriad yw sefydlu safle i egino deunydd o'r mathau hyn, dylid ymgynghori â'r FC (Rheolwr Deunydd Atgenhedlol Coedwigoedd yr FC, Caeredin, cyfeiriad cyswllt isod), yn gynnar iawn yn y broses gynllunio.

Mae'r rhan fwyaf o berllannau hadau wedi cael eu sefydlu i ddatblygu amrywiaethau gwell o Gonifferau ar gyfer cynhyrchu pren, ac mae gwybodaeth am berllannau llydanddail yn gyfyngedig.¹¹ Mae perllannau yn aml yn seiliedig ar unigolion impiedig ac fel rheol, wedi'u dylunio i fanteisio i'r eithaf ar ryngbeillio a hwyluso casglu hadau. Tueddir i ddefnyddio perllannau hadau ar gyfer cynhyrchu hadau cyltifarau a chroesrywiau newydd a gwell. Ar hyn o bryd, mae 3 o berllannau hadau llydanddail o rywogaethau yn cynnwys yr Onnen, y Goeden Geirios a'r Dderwen mes digoes (a reolir gan yr FC neu Maelor Forest Nurseries Ltd). Mae 6 o berllannau hadau coniffer hefyd.^{9,11}

Adnoddau

1. Work with planting material for forestry purposes (2018). Ar gael ar-lein yn: <https://www.gov.uk/guidance/work-with-planting-material-for-forestry-purposes>
2. FC Forest Reproductive Material: Regulations controlling seed cuttings and planting stock for forestry in Great Britain (2019) ar-lein yn: <https://www.forestresearch.gov.uk/research/forest-reproductive-material-regulations-controlling-seed-cuttings-and-planting-stock-for-forestry-in-great-britain-2nd-edition/>
3. FC The Basic Obligations for Suppliers under the Forest Reproductive Material Regulations. Ar-lein yn: <https://www.gov.uk/guidance/work-with-planting-material-for-forestry-purposes#basic-material-and-forest-reproductive-material>
4. Register as a supplier of FRM (Form FRM6). Ar gael ar-lein yn: <https://www.gov.uk/guidance/work-with-planting-material-for-forestry-purposes#register-as-a-supplier-of-frm>
5. FC Seed testing guidance notes: Ar gael ar-lein yn: <https://www.gov.uk/guidance/work-with-planting-material-for-forestry-purposes>
6. Register a stand or orchard as a source of basic material (Form FRM1a). Ar gael ar-lein yn: <https://www.gov.uk/government/publications/frm1a-register-a-stand-or-orchard-as-a-source-of-basic-material>
7. List of registered suppliers (Wales). Ar gael ar-lein yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/893073/supplierlist.pdf
8. National register of approved basic material. Ar gael ar-lein yn: <https://www.gov.uk/guidance/work-with-planting-material-for-forestry-purposes#national-register-of-approved-basic-material>
9. Master certificate, reproductive material from seed sources/stands (Form FRM4a). Ar gael ar-lein yn: <https://www.gov.uk/government/publications/frm4a-master-certificate-reproductive-material-from-seed-sourcesstands>
10. Supplier's document – when you need to provide one. <https://www.gov.uk/guidance/work-with-planting-material-for-forestry-purposes#register-as-a-supplier-of-frm>
11. Bwletin 54 yr FC. Seed orchards (1975) Ar gael ar-lein yn: <https://www.forestresearch.gov.uk/research/archive-seed-orchards/>

Pwyntiau Cyswllt ar gyfer y Comisiwn Coedwigaeth:

Ar gyfer y gofrestr genedlaethol o ddeunydd sylfaenol a phob mater yn ymwneud â deunydd sylfaenol, y gofrestr o gyflenwyr, mewnforyr ac allforyr, ac ymholiadau ynglŷn â rheoliadau FRM, cysylltwch â:

Rheolwr Deunydd Atgenedloll Coedwigoedd
Y Comisiwn Coedwigaeth
Silvan House
231 Corstorphine Road
Caeredin
EH12 7AT

Ffôn: 0300 067 5041 Ffacs: 0131 314 6148 E-bost FRM@forestrycommission.gov.uk

Ar gyfer hysbysiadau ac ymholiadau casglu hadau, ymholiadau a cheisiadau tystysgrifau meistr ac ymholiadau FRM cyffredinol, cysylltwch â:

Cymorth Gweinyddol FRM
Y Comisiwn Coedwigaeth
Silvan House
231 Corstorphine Road
Caeredin
EH12 7AT

Ffôn: 0300 067 5129 Ffacs: 0131 314 6148 E-bost FRM@forestrycommission.gov.uk

Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig

Rhestr o ymgynghorwyr Coedwigaeth achrededig yng Nghymru: <https://www.charteredforesters.org/about-us/hire-a-consultant/>



GYMRYD RHAN

I gael gwybod mwy:

GET INVOLVED

To find out more:

DEWISGWYLLT.CO.UK



Llais y Goedwig, Unit 1, Dyfi Eco Park, Machynlleth, Powys, SY20 8AX

